# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 3

CWRICWLWM AR GYFER DARPARIAETH EITHRIADOL O ADDYSG MEWN UNEDAU CYFEIRIO DISGYBLION NEU MEWN MANNAU ERAILL

*Unedau cyfeirio disgyblion*

### 51 Adolygu a diwygio cwricwlwm

(1) Rhaid i'r awdurdod lleol, y pwyllgor rheoli (os oes un) a'r athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am uned cyfeirio disgyblion—

(a) cadw'r cwricwlwm ar gyfer yr uned o dan adolygiad, a

(b) sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion yn adran 50.

(2) Wrth ystyried a yw'r cwricwlwm yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion yn adran 50, rhaid iddynt roi sylw i wybodaeth sy'n deillio o unrhyw drefniadau asesu a weithredir ganddynt o dan reoliadau a wneir o dan adran 56.

(3) Rhaid iddynt ddiwygio'r cwricwlwm os ydynt yn ystyried ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion yn adran 50.

(4) Cânt ddiwygio'r cwricwlwm hefyd ar unrhyw adeg y maent yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

(5) Os caiff y cwricwlwm ei ddiwygio, rhaid i'r athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am yr uned gyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm diwygiedig, neu drefnu iddo gael ei gyhoeddi.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 51 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 51 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I2** A. 51 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(d), **Atod.**

**I3** A. 51 mewn grym ar 1.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 6(1)**(2)(d)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 51 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**
– s. 51 coming into force by S.I. 2022/652 art. 7(e)
– s. 51 coming into force by S.I. 2022/652 art. 8(b)
– s. 51 coming into force by S.I. 2022/652 art. 9(b)